Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 27 Chwefror 2013**

Amser:
**09:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Claire Morris**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8148 / 029 2089 8242
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod cyn y prif gyfarfod (09.00-09.15)**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad: sesiwn graffu (09.15-10.00) (Tudalennau 1 - 3)

Ian James, Cyfarwyddwr Addysg Interim, Dinas a Sir Abertawe

Robin Brown, Pennaeth Cynhwysiant Addysgol, Dinas a Sir Abertawe

**Egwyl (10.00-10.15)**

### 3 Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad: sesiwn graffu (10.15-11.00) (Tudalennau 4 - 33)

Arwyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg a Chymunedol, Cyngor Sir Ceredigion

### 4 Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad: sesiwn graffu (11.00-11.45) (Tudalennau 34 - 43)

Uwch-arolygydd Liane Bartlett, Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru

### 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y

## cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn

Eitem 6

## 6 Blaenraglen Waith y Pwyllgor

City & County of Swansea – Response to National Assembly for Wales Children & Young People's Committee Regarding Attendance & Behaviour February 2013

The City & County of Swansea through schools, officers and elected members places a high priority on improving school attendance. It recognises that:

- Children who do not attend school regularly are more likely to leave school with a few or no qualifications; they are more likely to be drawn into crime and anti-social behaviour.
- Parents are responsible, by law, for ensuring that their children receive a suitable full time education.
- There are many causes for absence from school, apart from illness, that may need to be addressed. Many underlying absences relate to school, home and other pupils. This, for example, may include family problems or weakness in the quality or relevance of the curriculum.

A scrutiny review by elected members of school attendance concluded:

- Education Welfare Officers and Project Workers provide an invaluable service to schools, parents and children.
- Parenting skills and parental attitudes to school are key factors in a child's school attendance and their resulting overall school attainment.
- The social and emotional climate in a school can make a huge difference on a child's attitude and attendance.
- Some pupils are not emotionally or socially skilled to easily enjoy the classroom and therefore adequately engage in learning.
- Some pupils experience difficulties in attendance during the transition period between primary and secondary school.
- The overall attendance figures published for Swansea may not fully reflect the challenges being faced in particular schools and areas.
- Prosecution is an option for persistent absentees but should be used as a very last resort.
- An appropriate curriculum and other alternatives to the academic route was a key factor in engaging young people in learning and thus improving their life opportunities.
- Individual's schools, working in conjunction with their EWO, were in the best position to judge what is required for their school and locality in relation to attendance issues. That there should not be a blanked system for all schools and wish to emphasise the importance of each school being 'proactive' in the tackling of non attendance.

The Authority encourages schools to meet their responsibilities regarding attendance so that a consistent approach is used to manage attendance and that each school:

- Has a clear policy on managing absence
- Has effective, non-bureaucratic systems for monitoring absence.
- Uses attendance data and other information to help improve school and pupil performance
- Promotes the importance and legal requirements of good attendance to pupils and their parents/carers.

- Has support systems in place for vulnerable pupils
- Rewards and celebrates good and improved attendance.

Actions taken over the past 2 years

- Schools are responsible for taking the lead on actions to maximise school attendance. The Authority supports these action in a variety of ways. School attendance is a school improvement issue. If pupils do not attend school they are not in a position to learn. Pupils attending school and schools offering appropriate, relevant and motivating educational experiences and opportunities are seen as key to maximising educational opportunities for all learners.
- In recent years schools and Authority services such as Education Effectiveness and the Education Welfare Service have worked together on a range of actions to maximise school attendance under the umbrella of the Improving Attendance Initiative.
- The core of the Improving Attendance Initiative (IAI) is schools being provided with data on an annual basis detailing their school attendance performance against themselves, cluster of schools, Swansea all schools data and the Welsh averages over the previous three years. This is part of a support and challenge discussion between the Education Welfare Officer working with the school and the senior management of the school. This discussion jointly reviews the performance data to identify the 'story it tells' what has worked well over the past 12 months and what issues a particular school has that is hindering school attendance. Out of this analysis an action plan is drawn up to prioritise actions over the next 12 months to try and maximise school attendance based on a rationale of why those actions will be expected for that's school context and situation.
- This annual review is supported by the Education Welfare Officers drawing out good practice and sharing it amongst the EWS and school in these discussions.
- Education Effectiveness staff also use school attendance data in their school profile visits.
- A small number of schools are also identified for joint visits by the School Development Advisor (SDA) and the Principal Education Welfare Officer if there are particular concerns about a school's trends in school attendance performance.

Over the past two years the work within the Improving Attendance Initiative has been supplemented by:

- Review of other Local Authorities who were evidencing particularly increased rates of improvement in school attendance performance. This led to discussions with these authorities and lessons identified that could be particularly relevant for the Swansea context. One element identified was an approach by a particularly successful Local Authority with the use of a tool they use to measure the effectiveness of school management systems for school attendance and absence.
- Development of a self evaluation tool with schools in Swansea for them to assess and rate their management systems for school attendance and absence. This was piloted, refined and then included as part of the annual Improving Attendance Initiative discussion and planning for future actions with all schools.
- A Good Practice Seminar to which all the schools were invited. This included two schools sharing their practice linked to consistent improved school attendance

performance in recent years.  This was a basis for discussion and consideration of how all schools could maximise their school attendance.

- A Seminar to which all schools were invited to consider the changes made by Welsh Government to codings for the recording of absence in school attendance registers and returns.
- Discussion of school attendance performance and issues at Education Directorate Senior Leadership Team meetings with all Headteachers

With developments over recent years some schools have:

- Incorporated well being approaches such as Restorative Practice to encourage a supportive school environment.
- Used tools such as the Family Learning Signature to support links with parents
- Linked to Family Learning to provide practical ways for families to support the education of their children.
- Employed various types of support staff such as attendance officers, inclusion officers or well being officers

These developments can be linked together with wider school improvement approaches to improve educational outcomes for learners.  The coordination of a range of such approaches within effectively led and managed schools, with a clear vision and purpose, was evident in the presentations by schools in the good practice seminar.

The Authority continues to encourage schools to view school attendance as a school improvement issue.  Within this to encourage schools to have coherent and joined up strategies to improve attainments, improve literacy and numeracy levels, well being support, maximise school attendance, tackle issues related to school exclusions and ensure conducive learning environments to maximise educational opportunities for all learners.  These were evident in the schools featured in the good practice seminar, alongside clear leadership linked to effective school management systems and effective working with partners and key stakeholders.

**Ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i bresenoldeb ac ymddygiad.**

**Nod**

**Adolygu effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol yn y ddarpariaeth addysg i blant oedran ysgol gorfodol.**

**Tystiolaeth gan Awdurdod Lleol Ceredigion**

Ceredigion yw'r awdurdod mwyaf cynhwysol yng Nghymru. Nid oes unrhyw ysgol arbennig yn y sir ac, ar wahân i nifer fach iawn o ddisgyblion, mae pob disgybl yn cael ei addysgu mewn ysgolion prif ffrwd.

Er bod Ceredigion yn Awdurdod Lleol bach, mae cyfeiriad strategol a darparu gwasanaeth o ansawdd wedi sicrhau bod lefelau presenoldeb uchel a chyfraddau gwahardd isel iawn disgyblion, boed yn waharddiadau cyfnod penodol neu barhaol, yn rhagorol a'r gorau yng Nghymru, gan gymharu'n dda â chymdogion ystadegol yn Lloegr.

Mae cynllunio strategol a strwythur y gwasanaeth wedi rhoi presenoldeb ac ymddygiad fel llinynnau allweddol a chanolog ym maes gwella ysgolion. Dau o'n blaenoriaethau strategol addysgol yw lefelau uchel o bresenoldeb, helpu dysgwyr ag anghenion ac atal gwahardd disgyblion o ysgolion prif ffrwd. O ganlyniad, ar gyfer yr awdurdod cyfan a phob ysgol, mae data cyrhaeddiad yn ystyried pob disgybl. Mae hyn yn golygu bod cyrhaeddiad disgyblion ag ystod o AAA a disgyblion ag Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol wedi'i gynnwys, sy'n wahanol iawn i bob ALl arall. Mae'r ymagwedd hon a'i heffaith yn ardderchog.

Mae Cytundeb Partneriaeth effeithiol wedi datblygu gydag ysgolion i sicrhau bod ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Awdurdod Lleol. Mae gan yr Awdurdod dîm hynod brofiadol o staff sy'n darparu gwasanaethau dwyieithog o ansawdd uchel, ac mae wedi datblygu continwwm cynhwysfawr o wasanaethau cyffredinol, rhagorol ac wedi'u targedu i hyrwyddo lles a chynhwysiant cymdeithasol plant a phobl ifanc. Mae'r berthynas weithio agos rhwng Swyddogion Gwella Ysgolion a Swyddogion Cynhwysiant Addysg a'r Tîm Cynnal Ymddygiad yn sicrhau bod ysgolion yn atebol drwy gymorth, her ac ymyrraeth briodol lle y bo angen i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc. Mae monitro data a gosod targedau yn effeithiol iawn ac yn dangos ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ddarpariaeth gwasanaeth a bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni drwy gyrhaeddiad uchel. (Atodiad 1: Cipolwg Canolfan Athrawon)

Mae'r strategaethau a drafodir yn y papur hwn wedi cael eu rhannu â sawl Awdurdod Lleol arall gan gynnwys Gwynedd, Powys, Wrecsam, Sir Ddinbych ac Abertawe.

**Cynnal Ymddygiad**

Mae gwella ymddygiad wedi bod yn flaenoriaeth i Awdurdod Lleol Ceredigion dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys; (Atodiad 2: Tîm Cynnal Ymddygiad - Ceredigion)

- Datblygu gallu ysgolion i reoli ymddygiad;
- Canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a meithrin cysylltiadau â darparwyr cyn-ysgol;
- Cyflwyno canolfannau Hafan ac Encil mewn ysgolion uwchradd;
- Datblygu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion;
- Datblygu gwasanaeth cymorth peripatetig cryf mewn ysgolion;
- Ailstrwythuro'r portffolio UCD y barnwyd ei fod yn Dda ac yn Rhagorol yn ddiweddar;
- Gweithredu'n frwd i leihau gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol;
- Lleihau nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru fel disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol drwy ddarparu addysg briodol mewn ysgolion prif ffrwd, darpariaeth arbenigol, UCD neu ddarpariaeth ar ddau safle;
- Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r awdurdod oherwydd Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol.

***Mae disgyblion yng Ngheredigion yn cael cymorth rhagorol i ymddwyn yn dda***

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad wrth wraidd strategaeth Gwella Ysgolion Ceredigion. Mae'r Tîm Cynnal Ymddygiad yn cyfrannu at gategoreiddio ysgolion cynradd ac uwchradd yr awdurdod. Mae categoreiddio ysgolion, wedi'i gwblhau gan y Tîm Cynnal Ymddygiad, yn seiliedig ar bolisïau ac arferion ysgol gyfan, ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol a data gwahardd ysgolion unigol. (Atodiad 3: sail resymegol Matrics Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad Ceredigion)

Mae gan y Strategaeth Cynnal Ymddygiad hynod lwyddiannus brosesau a chymorth ardderchog yn eu lle ar gyfer adnabod pryderon yn gynnar, rhoi cymorth a dulliau ymyrryd graddedig. Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid. Mae rhwydweithiau cadarnhaol yn eu lle. Mae'r rhain yn darparu cymorth a hyfforddiant effeithiol iawn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar lefel y disgybl, yr ystafell ddosbarth neu'r ysgol.

**Y gwasanaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad**

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn cynnig cymorth i bob ysgol gynradd ac uwchradd yn y sir. Mae'r tîm yn cydweithio'n agos â phenaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Ychwanegol a Phenaethiaid Cynhwysiant i sicrhau bod y cymorth a gynigir gan y gwasanaeth yn bodloni anghenion yr ysgol a'r person ifanc.

- Cymorth Ysgol Gyfan yn canolbwyntio ar ddadansoddi data, systemau ysgol gyfan a strategaethau ymyrryd
- Mae'r Awdurdod wedi buddsoddi yn rhaglen Webster Stratton yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cyflwyno rhaglen dreigl o hyfforddiant ar hyn o bryd
- Disgyblu Cadarnhaol
- Ymyrraeth Gorfforol
- Cymorth yn y Dosbarth
- Cymorth i Ddisgyblion Unigol

Mae gan yr Awdurdod gontinwwm da iawn o gyfleusterau **Uned Cyfeirio Disgyblion** (Cyfnod Allweddol 2-4). Cyhoeddwyd yr adroddiad Estyn diweddaraf ar 15 Chwefror, 2013. http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6671106/

Fel rhan o'i gyfrifoldebau strategol, mae'r Awdurdod hefyd wedi datblygu darpariaeth yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cyfnod Allweddol 2-4) ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol.

Rôl yr Uned Cyfeirio Disgyblion

Mae'r AALl yn cydnabod yn achos nifer fach o ddisgyblion ni fydd addysg brif ffrwd yn briodol iddynt dros dro. Mae Awdurdod Lleol Ceredigion newydd agor canolfan fach yng Nghyfnod Allweddol 2 o fewn ysgol brif ffrwd i helpu disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol a/neu Ymddygiadol. Mae'r ddarpariaeth hon yn seiliedig ar yr egwyddorion meithrin sy'n helpu addysgu disgyblion sut i feithrin perthynas well ag oedolion a datblygu cymorth gan gyfoedion. Dangoswyd bod hyn yn gwella ymddygiad, cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion a'i fod yn codi hyder a hunan-barch disgyblion. Mae Awdurdod Lleol Ceredigion yn ceisio darparu ymyrraeth addysgol yn y tymor byr yng Nghyfnod Allweddol 3 sydd naill ai'n cynnal lleoliad prif ffrwd y disgybl, neu mewn rhai achosion lle mae hyn eisoes wedi chwalu, hwyluso disgybl i ddychwelyd â chymorth i ail ysgol brif ffrwd cyn gynted ag y bo'n briodol. Yng Nghyfnod Allweddol 4, rhoddir ystyriaeth briodol i ddatblygu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn yr UCD a'r cyfleoedd i barhau â chysylltiadau ag ysgolion prif ffrwd.

Mae'r Cwricwlwm UCD yn canolbwyntio ar addysgu'r sgiliau sylfaenol i ddisgyblion, sef llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae hyn yn golygu bod disgyblion sy'n cael anawsterau wedi'u grymuso mwy yn eu dysgu pan fyddant yn dychwelyd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth briodol.

Mae disgyblion sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion

- wedi gwella eu presenoldeb;
- wedi gwella eu hymddygiad;
- mae pob disgybl yn cael achrediad ffurfiol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4;
- pontio llwyddiannus - 92% o ddisgyblion wedi trosglwyddo i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

***Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo rhwng ysgolion neu sy'n dychwelyd o'r UCD yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol i barhau â'u haddysg.***

Mae'r prosesau a'r trefniadau hyn yn llwyddo i osgoi gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol, hir. Effaith gyffredinol y strategaethau hyn yw ysgolion yng Ngheredigion sydd wedi'u grymuso mwy, sydd â mwy o allu i fod yn fwy effeithiol o ran gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad ac o ganlyniad, mae gan Geredigion y cyfraddau isaf o waharddiadau parhaol a chyfnod penodol yng Nghymru.

***Mae canolfannau Hafan ac Encil yn darparu gofal a chymorth rhagorol i ddisgyblion agored i niwed yn ein hysgolion.***

Mae Awdurdod Lleol Ceredigion wedi cyllido sefydlu canolfannau Hafan ac Encil ym mhob ysgol uwchradd. Mae'r rhain yn effeithiol iawn o ran cynnal a chefnogi disgyblion sy'n teimlo'n agored i niwed, y rhai sy'n colli diddordeb yn eu haddysg ac sydd mewn perygl o gael eu heithrio neu sy'n agored i niwed oherwydd problemau teuluol neu gymdeithasol. Maen nhw'n cynnig rhaglenni addysg a chymorth sydd wedi cael eu teilwra i fodloni anghenion disgyblion sydd angen cymorth i wella/gefnogi eu dysgu, eu hymddygiad, eu presenoldeb neu eu hagwedd tuag at addysg. Maen nhw'n helpu disgyblion agored i niwed i wneud y gorau o'u gallu drwy gymorth amlasiantaeth; maen nhw'n cadw'r disgyblion yn yr ysgol ac yn astudio tra eu bod yn rhoi sylw i'w problemau; ac maen nhw'n helpu disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd i ailymuno â dosbarthiadau prif ffrwd. Mae Hafan ac Encil yn cael yr effaith ganlynol:

- mae'r disgyblion yn cysylltu'n well â'u haddysg ac maen nhw wedi'u paratoi'n well i ymdopi â bywyd ar ôl gadael yr ysgol
- mae lefelau presenoldeb wedi gwella ym mhob ysgol
- llai o driwantiaeth
- llai o waharddiadau
- ymddygiad gwell yn yr ysgol

- mwy o ddisgyblion yn cael addysg ôl-16
- mwy o gymorth i staff ac mae hyn yn cael effaith ar safonau ymddygiad cyffredinol
- ffordd o wella'r gwerth ychwanegol a gynigir gan ysgolion

## Data Gwaharddiadau

**Gwaharddiadau mewn ysgolion, Ceredigion: 2007/08 - 2011/12**


Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd i waharddiadau cyfnod penodol, yn ôl cyfnod y gwaharddiad

| | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ≤ 5 diwrnod | 1,122.9 | 672.5 | 989.5 | 563.5 | 429.5 | 449.0 |
| ≥ 6 diwrnod | 915.5 | 795.5 | 508.0 | 504.5 | 485.5 | - |

Ffynhonnell: Casgliad Gwaharddiadau

---


Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd gan ddisgyblion yn ysgolion Ceredigion, yn ôl cyfnod y gwaharddiad




Er mwyn cael data cymharol ar draws Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i ni edrych ar nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol (≤ 5 diwrnod a ≥ 6 diwrnod wedi'u cyfuno) ar gyfer pob 1,000 o ddisgyblion. Mae'r data isod wedi'i rannu'n sectorau cynradd ac uwchradd:

**Gwaharddiadau Cynradd**


*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Iaith*




*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Prydau Ysgol Am Ddim*





*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Lloegr*




**Gwaharddiadau Uwchradd**


*Awdurdodau Lleol tebyg: Iaith*




*Awdurdodau Lleol tebyg: Prydau Ysgol Am Ddim*




*Awdurdodau Lleol tebyg: Lloegr*




**Effaith**

Mae nifer y gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

- Ni chafwyd unrhyw waharddiadau parhaol yn y sector cynradd ac uwchradd yn y ddwy flynedd ddiwethaf;
- Mae cyfnod gwaharddiadau cyfnod penodol wedi lleihau'n sylweddol yng Ngheredigion. Yn 2011/12, ni chafwyd **unrhyw waharddiadau cyfnod penodol** o 6 diwrnod neu ragor yn y naill sector neu'r llall;
- Mae nifer y diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i waharddiadau o 5 diwrnod a llai wedi lleihau'n sylweddol o 989.5 diwrnod yn 2008/09 i 449 diwrnod yn 2011/12;
- Cytuno ar dargedau heriol i ysgolion o ran gwaharddiadau cyfnod penodol;
- Mae dadansoddiad o ddata gwaharddiadau ar lefel ALI, lefel ysgol unigol, blwyddyn academaidd a disgyblion unigol wedi cynnig modd i bob ysgol uwchradd, mewn partneriaeth â'r ALI, adolygu eu systemau rheoli ymddygiad a bugeiliol eu hunain;

- Ymrwymiad gan yr ALl ac ysgolion i sicrhau bod y cyfleuster Hafan ac Encil yn nodwedd ganolog ym mhob ysgol uwchradd;
- Mae cyfathrebu effeithiol ac agored rhwng yr ALl ac ysgolion wedi sicrhau bod rhaglenni hyblyg ac unigol yn cael eu datblygu i gefnogi'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed;
- Mynediad i gymorth hyblyg ac amserol gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ymateb graddedig i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol neu Ymddygiadol;

- Mae gwasanaeth cwnsela hynod effeithiol yn yr ysgol ar gael i bob disgybl. Mae hyn yn cael ei wella drwy ddarparu gwasanaeth cwnsela am ddim yn y gymuned i oedolion y bydd ysgolion yn cyfeirio rhieni ato pan fo'n briodol. Mae ysgolion uwchradd yn cael cyllid dirprwyedig i wneud darpariaeth ar gyfer disgyblion 11-16 oed o'r grant cwnsela yn yr ysgol.

Mae cefnogi plant a phobl ifanc ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol, Ymddygiadol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Geredigion. Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn parhau i gydweithio'n agos ag ysgolion i sicrhau bod pob disgybl yng Ngheredigion yn cael mynediad i gwricwlwm amser llawn perthnasol a phriodol. Yn ystod 2012/13, bydd y Tîm Cynnal Ymddygiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Lleihau ymhellach y nifer cyfartalog o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol;
- Datblygu ymhellach Agenda Cwricwlwm Arall yr ALl i fodloni anghenion disgyblion unigol sy'n cael anawsterau o ran cynnal eu lleoliad prif ffrwd;
- Sicrhau bod pob ysgol wedi'i hyfforddi'n llawn ym maes rheoli ymddygiad a bodloni anghenion yr unigolion mwyaf heriol.

Mae'r Tîm Cynnal Ymddygiad yn gydran allweddol yng ngwasanaeth gwella ysgolion Ceredigion. Mae'r tîm gwella ysgolion ehangach yn cwrdd bob mis i drafod amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gwella ysgolion. O ganlyniad, mae staff wedi datblygu dealltwriaeth dda iawn o'u cyfraniad at wella agweddau ar arweinyddiaeth ysgolion, deilliannau disgyblion, materion cwricwlaidd a bugeiliol yn ogystal â gwella ymddygiad mewn ysgolion.

**Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg Ceredigion - presenoldeb ysgolion**

Mae presenoldeb disgyblion Ceredigion yn rhagorol ac yn cymharu'n dda â chymdogion ystadegol yn Lloegr.

Data presenoldeb yr awdurdod lleol yw'r un gorau yng Nghymru. Er i'r presenoldeb yn y sector uwchradd fod yr uchaf yng Nghymru ers sawl blwyddyn bellach, mae Ceredigion hefyd wedi gweld y presenoldeb cynradd gorau erioed am y tro cyntaf yn 2011/12.

Mae'r awdurdod wedi dangos lefel presenoldeb gynyddol yn y sector uwchradd o 91.6% ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/8 i'r lefel uchaf erioed yng Nghymru, sef 93.7% am y flwyddyn academaidd 2011/12, o'i gymharu â'r cyfartaledd i Gymru, sef 92.2%.

**Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd, Ceredigion: 2007/08 - 2011/12 (a)**
Canrannau'r sesiynau hanner diwrnod a gollwyd/a fynychwyd yn ystod y flwyddyn academaidd

| | Canran y sesiynau a gollwyd oherwydd: | | | Presenoldeb | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Absenoldeb wedi'i awdurdodi | Absenoldeb heb ei awdurdodi | Cyfanswm | % | *Cymru (b)* |
| **2011/12** | **5.2** | **1.1** | **6.3** | **93.7** | ***92.2*** |
| 2010/11 | 6.3 | 1.2 | 7.5 | 92.5 | *91.4* |
| 2009/10 | 7.3 | 1.1 | 8.3 | 91.7 | *91.1* |
| 2008/09 | 7.1 | 1.1 | 8.2 | 91.8 | *91.0* |
| 2007/08 | 7.4 | 1.0 | 8.4 | 91.6 | *91.0* |

Ffynhonnell: Casgliad Presenoldeb

(a) Disgyblion oedran ysgol gorfodol yn unig.
(b) Ysgolion arbennig wedi'u cynnwys hefyd.

Mae presenoldeb yn y sector cynradd wedi bod ar lefel uchel ers 2007/08, ond gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2011/12 i'r lefel uchaf i Gymru gyfan, sef 94.9%, o'i gymharu â'r cyfartaledd i Gymru, sef 93.8%.

**Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd, Ceredigion: 2007/08 - 2011/12 (a)**
Canrannau'r sesiynau hanner diwrnod a gollwyd/a fynychwyd yn ystod y flwyddyn academaidd

| | Canran y sesiynau a gollwyd oherwydd: | | | Presenoldeb | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Absenoldeb wedi'i awdurdodi | Absenoldeb heb ei awdurdodi | Cyfanswm | % | *Cymru (b)* |
| **2011/12** | **4.6** | **0.5** | **5.1** | **94.9** | ***93.8*** |
| 2010/11 | 5.1 | 0.6 | 5.7 | 94.3 | *93.3* |
| 2009/10 | 5.1 | 0.5 | 5.6 | 94.4 | *93.1* |
| 2008/09 | 5.3 | 0.5 | 5.8 | 94.2 | *93.2* |
| 2007/08 | 5.5 | 0.4 | 5.9 | 94.1 | *93.3* |


Ffynhonnell: Casgliad Presenoldeb

(a) Disgyblion oedran ysgol gorfodol yn unig.
(b) Ysgolion arbennig wedi'u cynnwys hefyd.


Mae Ceredigion hefyd yn cymharu'n dda â'i gymdogion ystadegol yng Nghymru a Lloegr. Mae Ceredigion yn 1af ar gyfer presenoldeb cynradd ac uwchradd o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol sydd â nodweddion tebyg (Iaith neu Brydau Ysgol Am Ddim) yng Nghymru yn 2011/12.

**Presenoldeb Cynradd**

*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Iaith*





*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Prydau Ysgol Am Ddim*





**Presenoldeb Uwchradd**

*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Iaith*





*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Prydau Ysgol Am Ddim*




Roedd Ceredigion yn 6ed ar gyfer Awdurdodau Lleol tebyg yn Lloegr yn 2010/11, ond disgwylir i'r safle hwn newid yn sgîl ffigurau presenoldeb diweddaraf Ceredigion (data o Loegr ar gyfer 2011/12 i'w gyhoeddi Mawrth 2013).


**Presenoldeb Cynradd**

*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Lloegr*




**Presenoldeb Uwchradd**

*Awdurdodau Lleol tebyg:*
*Lloegr*




Mae hyn wedi cael ei wneud drwy dargedu cymorth yn ofalus i ysgolion unigol, teuluoedd a disgyblion lle roedd presenoldeb yn is na throthwyon Ceredigion. Disgwylir i bob ysgol gymryd y camau cychwynnol i wella presenoldeb a dilyn y gweithdrefnau penodol a gafodd eu cytuno gyda'r sir (Atodiad 4). Mae hyn wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng ysgolion a'r AALl.

Mae pob ysgol yn cael ei chategoreiddio yn ôl canlyniadau ffurflen graddio presenoldeb (Atodiad 5). Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar y matrics 'Cynnal a Her'. Mae hyn yn cynnig modd i'r gwasanaeth dargedu'r ysgolion hynny sydd angen cymorth ychwanegol a herio'r ysgolion hynny nad ydynt yn gweithredu eu strategaethau presenoldeb yn effeithiol. Mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Swyddogion Gwella Ysgolion a'i chynnwys ar y matrics generig 'Cynnal a Her'. Mae'r fenter hon wedi cael ei rhannu â chonsortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru a'i chydnabod fel enghraifft o arferion rhagorol (Atodiad 6).

Mae'r awdurdod yn datgan y dylai'r Llywodraethwyr gael gwybodaeth gan y pennaeth bob tymor ynghylch nifer y disgyblion yn yr ysgol sydd â phresenoldeb o lai na 90%. Mae presenoldeb disgyblion unigol sy'n is na 90% yn anfoddhaol ac mae presenoldeb disgybl unigol sy'n is nag 85% yn bryder difrifol, oni bai bod amgylchiadau arbennig.

Mae'r meincnodau y disgwylir i ysgolion eu defnyddio ar gyfer cyfraddau presenoldeb i'w gweld isod.

| ***Cyfradd presenoldeb*** | ***Categori*** |
|---|---|
| *95% +* | *Rhagorol* |
| *94.5% +* | *Da* |
| *92% +* | *Digonol* |
| *O dan 92%* | *Anfoddhaol* |

Os oes angen gwella cyfradd presenoldeb ymhellach mewn ysgolion cynradd neu uwchradd penodol, bydd y gwasanaeth yn paratoi cynllun gweithredu arbennig i'w weithredu yn yr ysgol honno (Atodiad 7).

Mae Swyddogion Cynhwysiant Addysg (SCA) yn gwneud gwaith presenoldeb yng Ngheredigion. Mae gan bob SCA fynediad i system gofrestru electronig ganolog sy'n cwmpasu pob un o ysgolion cynradd yr awdurdod. Mae hyn yn cynnig modd i'r SCA fonitro presenoldeb disgyblion unigol. Mae hefyd yn cynnig modd i swyddogion wirio a yw ysgolion yn marcio'r cofrestri'n briodol ac o fewn yr amserlenni cywir. Mae gwaith ar y gweill bellach i ymestyn y system hon i gynnwys pob un o ysgolion uwchradd yr awdurdod.

Mae'r Arweinydd Tîm yn rheoli'r tîm ond mae hefyd yn gweithio'n benodol gydag un ysgol uwchradd. Bydd yr Arweinydd Tîm hefyd yn cefnogi'r SCA drwy'r sir ac yn ymyrryd yn bersonol mewn achosion cymhleth. Mae SCA yn cael ysgolion dynodedig, ac mae nifer y disgyblion sydd wedi'u dyrannu i'r swyddog yn cael ei effeithio gan nifer y Prydau Ysgol Am Ddim a disgyblion AAA mewn ysgolion penodol.

| SCA | A | B | C | Ch/ D | Dd |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau dan gontract | A/LI | A/LI | A/LI | CYFWERTH AG A/LI | A/LI |
| SCA: Cymhareb disgyblion ar gyfer presenoldeb** | 1:1567 | 1:1325 | 1:2340 | 1:1050 | 1:3382 |
| Cymharydd cenedlaethol ar gyfer presenoldeb SCA: Disgybl pro rata | 1:1500 | 1:1500 | 1:1500 | 1:1500 | 1:1500 |

*** Mae SCA hefyd yn cyflawni dyletswyddau ychwanegol fel yr amlinellir isod, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu hefyd yn nifer y disgyblion a ddyrennir i swyddogion unigol.*

Mae'r Arweinydd Tîm a phob SCA yn hynod gymwysedig ac wedi ymgymryd â rôl arbenigol yn ogystal â gwaith presenoldeb cyffredinol. Mae'r swyddogion wedi cael hyfforddiant penodol ar gyfer y rolau hyn. Mae'r rôl arbenigol hon yn cynnig modd i'r swyddog ddatblygu cysylltiad agos â'r ysgolion ac asiantaethau eraill mewn perthynas â'r arbenigedd penodol. O ganlyniad, mae gwybodaeth wedi cael ei rhannu'n fwy effeithiol rhwng asiantaethau a grwpiau eraill gan gynnwys:

- grŵp MARAC sy'n delio â thrais domestig;
- datblygu'r Tîm o Amgylch y Teulu;
- Addysg Ddewisol Gartref;
- y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid;
- y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad (0.5), yn cefnogi presenoldeb yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion;
- y rhaglen gwricwlaidd arall a'r Gwasanaeth Ieuenctid sy'n gweithio ar ddarpariaeth addysgol arall ar gyfer y cohort 14-16, a datblygu mentrau ar gyfer cwricwlwm arall ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3.

Mae Swyddogion Cynhwysiant Addysg yn gydran allweddol yng ngwasanaeth gwella ysgolion Ceredigion. Mae'r tîm gwella ysgolion ehangach yn cwrdd bob mis i drafod amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gwella ysgolion. O ganlyniad, mae'r swyddogion wedi datblygu dealltwriaeth dda iawn o'u cyfraniad at wella agweddau ar arweinyddiaeth ysgolion, deilliannau disgyblion, materion cwricwlaidd a bugeiliol yn ogystal â phresenoldeb.

## Cyrhaeddiad

Yn ôl y disgwyl, po fwyaf o amser y mae disgybl yn yr ysgol, yr uchaf eu graddau ym mhob Cyfnod Allweddol. Mae'r tabl isod yn dangos sut roedd disgyblion 15 oed wedi perfformio yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2011/12, yn ôl cyfradd absenoldeb (trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C mewn TGAU Cymraeg/Saesneg a Mathemateg).

**Canlyniadau cynhwysol Lefel 2 (CA4), yn ôl cyfradd absenoldeb: 2011/12 (a)**

Canran y disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd

| | | Ceredigion (ch) | | *Cymru (d)* | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cohort** | **%** | *Cohort* | *%* |
| 2011/12 (b) | Absenoldeb 4% | **217** | **65.9** | ~ | ~ |
| | 4% < Absenoldeb ≤ 6% | **146** | **61.6** | ~ | ~ |
| | 6% < Absenoldeb ≤ 10% | **150** | **56.0** | ~ | ~ |
| | 10% < Absenoldeb ≤ 20% | **146** | **28.8** | ~ | ~ |
| | 20% < Absenoldeb ≤ 30% | **28** | **21.4** | ~ | ~ |
| | 30% < Absenoldeb ≤ 50% | **11** | **27.3** | ~ | ~ |
| | 50% < Absenoldeb | **1** | **0.0** | ~ | ~ |
| | **Pob disgybl (c)** | **706** | **52.1** | ***35,404*** | ***51.1*** |


Ffynhonnell: CA4/Casgliad Absenoldeb cyfatebol

(a) Dylid bod yn ofalus wrth gymharu rhwng data cyrhaeddiad ar gyfer categorïau lle mae llai na 50 yn y cohort.
(b) Gwnaethpwyd newid i'r codau yn y Casgliad Absenoldeb yn 2011/12, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol.
(c) Gall "Pob Disgybl" gynnwys rhai disgyblion na ellir eu cyfateb o CA4 i'r Casgliad Absenoldeb, felly mae'n bosib na fydd swm y rhesi yn cyfateb yn berffaith.
(ch) Ffigurau Ceredigion hefyd yn cynnwys disgyblion UCD.
(d) Ffigurau Cymru hefyd yn cynnwys disgyblion newydd (NEWBE). Data 2011/12 i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2013.

Atodiad 1

Tudalen 17

## Atodiad 1: Cipolwg o Ganolfan Athrawon



## Atodiad 2: Tîm Cynnal Ymddygiad Ceredigion

### GWASANAETH CYNNAL YMDDYGIAD CEREDIGION

| | Sylwadau | Gradd |
|---|---|---|
| **Oes gan yr ysgol Bolisi Ymddygiad cyfredol yn ei le y mae staff a disgyblion yn gwybod amdano?** | | |
| **Oes gan yr ysgol bolisi 'Ymyrraeth Gorfforol' cyfredol?** | | |
| **Oes tystiolaeth bod y polisïau yn cael eu gweithredu'n gyson drwy'r ysgol?** | | |
| **A gafwyd gwaharddiad parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd hon (2011-2012)?** | | |
| **A gafwyd gwaharddiad dros dro yn ystod y flwyddyn academaidd hon (2011 - 2012)?** | | |
| **Oes systemau bugeiliol effeithiol yn weithredol yn yr ysgol? h.y. oes cynlluniau cymorth ymddygiad gan y disgyblion mwyaf agored i newid? Oes darpariaeth ychwanegol gan yr ysgol sy'n cynnig cymorth i grwpiau bach/unigolion?** | | |
| **Oes tystiolaeth bod yr hyfforddiant a ddarparwyd wedi cael effaith ar weithdrefnau dyddiol yr ysgol? e.e. cyrsiau Team-Teach/SEBSA/AD/WS?** | | |
| **Oes tystiolaeth bod yr ysgol yn gwneud cyfeiriadau amserol a phriodol i sicrhau cymorth amlasiantaeth ar gyfer unigolion neu deuluoedd agored i niwed?** | | |

**Rhesymeg**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes gan yr ysgol Bolisi Ymddygiad cyfredol yn ei le y mae staff a disgyblion yn gwybod amdano?** | **4** | **4: polisi yn ei le ac wedi cael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu eleni**<br>**3: polisi yn ei le a bwriad i'w adolygu yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf i'w gyflwyno i'r Corff Llywodraethu**<br>**2: polisi yn ei le ac wedi cael ei adolygu yn ystod y tair blynedd diwethaf:**<br>**1: polisi yn ei le**<br>**0: dim polisi cyfredol** |
| **Oes gan yr ysgol bolisi 'Ymyrraeth Gorfforol' cyfredol?** | **2** | **2: polisi yn ei le sydd wedi cael ei dderbyn gan y Corff Llywodraethu;**<br>**1: polisi yn cael ei lunio yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf**<br>**0: dim polisi - dim cynllun** |
| **Oes tystiolaeth bod y polisïau yn cael eu gweithredu'n gyson drwy'r ysgol?** | **3** | **3: staff a disgyblion yn ymwybodol o'r system cynnal ymddygiad sy'n cael ei gweithredu yn rheolaidd trwy'r ysgol gyfan;**<br>**2: elfennau o'r polisi yn cael eu gweithredu'n gyson;**<br>**1: dim llawer o gysondeb i'w weld yn yr ysgol**<br>**0: dim tystiolaeth bod yr ysgol yn dilyn un system benodol** |
| **A gafwyd gwaharddiad parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd hon (2011-2012)?** | **2** | **2-0 gwaharddiad parhaol**<br>**0 gwaharddiad parhaol** |
| **A gafwyd gwaharddiad dros dro yn ystod y flwyddyn academaidd hon (2011-2012)?** | **2** | **2: dim gwaharddiadau dros dro**<br>**1: 1 disgybl penodol wedi'i wahardd dros dro**<br>**0: mwy nag un disgybl wedi'i wahardd dros dro** |

| | | |
|---|---|---|
| Oes systemau bugeiliol effeithiol yn weithredol yn yr ysgol?<br>h.y. oes cynlluniau cynnal ymddygiad gan y disgyblion mwyaf agored i newid?<br>Oes darpariaeth ychwanegol gan yr ysgol sy'n cynnig cymorth i grwpiau bach/unigolion? | 2 | 2: tystiolaeth gadarn bod yr ysgol yn defnyddio adnoddau'r ysgol i gefnogi disgyblion unigol: e.e. amser gyda'r Cydlynydd AAA/Cynlluniau Ymddygiad Unigol/Amser Cylch<br>1: tystiolaeth bod yr ysgol yn defnyddio rhai adnoddau yn yr ysgol i gefnogi unigolion/grwpiau<br>0: dim tystiolaeth - gall fod yn ddibynnol ar gymorth allanol |
| Oes tystiolaeth bod yr hyfforddiant a ddarperir wedi cael effaith ar weithdrefnau dyddiol yr ysgol? e.e. cyrsiau Team-Teach/SEBSA/AD/WS? | 3 | 3: tystiolaeth bod hyfforddiant wedi dylanwadu ar bolisi, darpariaeth a gweithredu'r ysgol o ddydd i ddydd;<br>2: tystiolaeth bod agweddau ar yr hyfforddiant wedi dylanwadu ar y mwyafrif o fewn yr ysgol<br>1: tystiolaeth bod agweddau ar yr hyfforddiant wedi dylanwadu ar unigolion o fewn yr ysgol<br>0: dim tystiolaeth o gwbl |
| Oes tystiolaeth bod yr ysgol yn gwneud cyfeiriadau amserol a phriodol i sicrhau cymorth amlasiantaeth ar gyfer unigolion neu deuluoedd agored i niwed? | 2 | 2: cyfeiriadau perthnasol a phriodol - tystiolaeth bod asiantaethau amrywiol yn cefnogi'r ysgol lle y bo angen<br>1: tystiolaeth berthnasol a phriodol y rhan fwyaf o'r amser;<br>0: dim tystiolaeth - yn dibynnu ar asiantaethau megis y Tîm Cynnal Ymddygiad i wneud cyfeiriadau ar gyfer cymorth |

**Atodiad 3: Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad**

**Strategaeth Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad Ceredigion**

**Cynnwys**

1. Egwyddorion y Gwasanaeth
2. Amcanion y Gwasanaeth
3. Tîm Cynnal Ymddygiad Ceredigion
4. Cod Ymarfer AAA
5. Strategaethau Ymyrraeth Gynnar
    a. Ymyraethau ysgol gyfan
    b. Cymorth yn y dosbarth
    c. Cymorth unigol
    ch. Rôl yr Uned Cyfeirio Disgyblion

## Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad - Ceredigion

**Egwyddorion**

'Creu dull ymateb graddedig ar gyfer cynnal ymddygiad a fydd yn cynnwys helpu ysgolion prif ffrwd i reoli ymddygiad, cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff mewn (hyfforddiant) rheoli ymddygiad, ymestyn y gwasanaeth allgymorth SEBSA (Cynorthwywyr Cymorth Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol) i gynnwys y sector uwchradd, addasu ymagwedd gyson at y model HAFAN ac ENCIL ym mhob ysgol uwchradd a sefydlu darpariaethau arbenigol a fydd yn bodloni anghenion pobl ifanc ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol mewn modd hyblyg ac effeithiol yng Ngheredigion.'

**Amcanion**

- Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a datblygu ymagwedd gyfannol at helpu pobl ifanc sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol a/neu Ymddygiadau rhwng pob asiantaeth;
- Sicrhau ymagwedd gyson at y model HAFAN/ENCIL yn y saith ysgol uwchradd;
- Datblygu ymhellach cyfleoedd cwricwlwm ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yn seiliedig ar ganllawiau Cwricwlwm 2008;
- Datblygu Darpariaeth Cynnal Ymddygiad priodol yn seiliedig ar ymateb graddedig sy'n bodloni anghenion disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yn ogystal â pharhau i gefnogi nifer fach o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4;
- Cynnig cyfleoedd a hwyluso disgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth ar fwy nag un safle os yw'n briodol i fodloni anghenion unigol;

- Amgylchedd cefnogol i arwain disgyblion yn ôl i addysg brif ffrwd lwyddiannus neu leoliadau addysgol priodol eraill;
- Datblygu rhaglen hyfforddi ar draws y sir i bob aelod o staff sy'n gweithio ochr yn ochr â disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, gan gynnwys staff canolog a staff sy'n gweithio mewn ysgolion;
- Lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yng Ngheredigion.

**Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad Ceredigion**

Mae Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad Ceredigion yn gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned ysgol gyfan a chydweithwyr amlasiantaeth i hyrwyddo'r safonau ymddygiad gorau posibl sy'n hybu dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Ein nod yw rhannu gwybodaeth ar bob agwedd ar gymorth ymddygiad er mwyn i bob aelod o staff ddysgu o arfer da pobl eraill, gan weithio i wella ymddygiad plant a phobl ifanc.

Bydd y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn cynnig:

- Cymorth ac arweiniad i ddisgyblion unigol;
